

UNED 7 – o a mo

Tasg 1

Atebwch y cwestiynau yma, gan ddilyn patrwm yr enghraifft yma.

Llenwch y bylchau gydag un o'r rhain :

rhai /y rhan fwyaf / pob un / neb / llawer

Faint o'r staff sy'n siarad Cymraeg? → **Llawer ohonyn nhw.**

i. Faint o dîm rygbi Cymru sy'n siarad Cymraeg?

.....

ii. Faint o'ch teulu chi sy'n gwyllo Pobol y Cwm?

.....

iii. Faint o'ch cydweithwyr chi sy'n gyrru car?

.....

iv. Faint o'ch ffrindiau chi sy'n berchen ci?

.....

v. Faint o bobl yn y siop sy'n gwisgo mwgwd?

.....

Tasg 2

Atebwch yn y negyddol, gyda brawddegau llawn:

Weloch chi'r ffilm? → **Welais i mohoni hi.**

- i. Gaeth e'r ddogfen? **(hi)**
- ii. Glywaist ti'r cyhoeddiad gan y pennaeth? **(fe)**
- iii. Ddealloch chi'r neges? **(hi)**
- iv. Glywaist ti fi'n siarad gyda'r ysgrifenyddes? **(ti)**
- v. Welodd e chi? **(ni)**
- vi. Bryni di'r Porsche? **(fe)**
- vii. Ddaw hi i'r parti gadael? **(fe)**
- viii. Wisgaist ti'r mwgwd i'r feddygfa? **(fe)**

Tasg 3

Darllenwch y ddau neges e-bost yna atebwch y cwestiynau:

Oddi wrth: Gwyn James
At: Tracy Williams
Testun: Codi pres

Annwyl Tracy Williams,

Diolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn ein cyngerdd codi pres neithiwr. Mi wnaethon ni tua phum cant o bunnoedd ar y drws, felly dan ni hanner ffordd at gyrraedd ein targed. Mae'n anodd i bentre bach godi cymaint o bres! Nid dyna'r rheswm dros gysylltu efo chi mewn gwirionedd. Y digwyddiad nesa yn ein calendr ni ydy ocsiwn fawr, lle byddwn ni'n gwerthu llawer o bethau. Oes rhywbeth y basech chi'n fodlon ei gyfrannu? Mi fasai llun ohonoch chi'n canu'n wych. Dw i'n gwybod bod blynyddoedd wedi mynd heibio ers i chi adael y pentre, ac mai Llundain ydy'ch cartre chi erbyn hyn. Ond mae pobl y pentre a gorllewin Cymru i gyd yn meddwl amdanoch chi fel merch o Gwm Du. Mae'r artist lleol Meirion Tomos wedi rhoi llun, a'r chwaraewr pêl-droed Malcolm Edwards wedi anfon crys. Mi fasai llun o'r gantores enwog Tracy Williams yn help mawr. Ymddiheuriadau am eich poeni unwaith eto.

Gwyn James

Oddi wrth: Tracy Williams

At: Gwyn James

Testun: Codi pres

Annwyl Gwyn,

Diolch yn fawr am eich neges. Mi wnes i fwynhau'r cyngerdd neithiwr, yn enwedig cyfarfod hen ffrindiau. Oni bai am yr eira, dw i'n siwr y basai mwy wedi dod; does dim byd y gallech chi fod wedi'i wneud am hynny. Dw i ddim yn meddwl bod £10 y tocyn yn ormod i'w ofyn. Wrth gwrs y baswn i'n hapus i gyfrannu at yr ocsiwn, yn enwedig gan fod Malcolm wedi anfon rhywbeth. Dw i'n ei gofio fo o'r ysgol er ei fod o'n ifancach na fi. Mi fydda i'n anfon neges ar Facebook ato fo rŵan. Gobeithio byddwch chi'n codi llawer o bres.

Cariad mawr,

Tracy

Ticiwch y bocs gyda'r ateb mwyaf priodol (appropriate)

1. Mae pwyllgor Cwm Du eisiau codi...

- a. £100
- b. £500
- c. £1,000
- ch. £1,500
- d. £10,000

2. Prif reswm Gwyn James dros ysgrifennu at Tracy yw/ydy...

- a. gofyn am rywbeth i'r ocsiwn.
- b. ymddiheuro.
- c. gofyn iddi gymryd rhan mewn cyngerdd.
- ch. diolch iddi.
- d. gosod targed.

3. Mae Tracy'n byw...

- a. yng ngorllewin Cymru.
- b. yng Nghaerdydd.
- c. yng Nghwm-du.
- ch. yn Llandinam.
- d. yn Llundain.



4. Doedd y neuadd ddim yn llawn neithiwr achos...



- a. yr eira.
- b. bod Tracy'n canu.
- c. bod y tocynnau'n ddrud.
- ch. bod pobl ddim yn hoffi Tracy.
- d. ei bod hi'n rhy boeth.

5. Roedd Tracy'n nabod Malcolm achos...



- a. ei fod e'n enwog.
- b. ei fod e ar Facebook.
- c. eu bod nhw yn yr ysgol gyda'i gilydd.
- ch. eu bod nhw'n gariadon yn yr ysgol.
- d. eu bod nhw'n perthyn.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

) :

Gweithgareddau
Cwrs Canolradd